

Trosolwg

Wednesday, October 30, 2019

3:50 PM

Enw: Kate Sloan

Rhif Myfyriwr: 1902872

TAR Uwchradd Cymraeg

ECAD6008C

Linc i OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o/g/personal/1902872_student_uwtsd_ac_uk/Ekou7_gXIQIOs9SCQcHS0gkBI1rsfArAtOmclhttpUwGJ5A?e=CaPKeE

Egwyddorion trafodwyd:

1. Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu.
2. Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer.
3. Mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol ac yn ennyn diddordeb.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Llywodraeth Cymru: Cymru.


Targedau Aseiniad 1
Ehanga ar ystod dy ddarllen gan wneud defnydd mwy effeithiol ohoni yn dy waith e.e aralleirio yn hytrach na ddyfynnu
Ystyria safbwyntiau gwahanol ymhellach er mwyn cyfoethogi dy ysgrifennu academiaidd.

Asesu ar gyfer dysgu


Wednesday, October 30, 2019 3:51 PM

ATODIAD 1

Enghraifft 1



Enghraifft 2



Gwelir yma tystiolaeth o sut y mae disgybl dan sylw wedi ymateb i'r darged yn llwyddiannus gan ysgrifennu brawddeg estynedig ac yn cynnwys ansoddair.

Mae absenoldeb o farciau/graddau yn yr adborth hon oherwydd mae llenyddiaeth yn sôn am bwysigrwydd adborth ysgrifenedig, adeiladol a sut y mae'n fwy effeithiol er mwyn i'r disgyblion datblygu yn lle marciau caled.

Mae'r dosbarth hwn yn dosbarth Cymraeg Ail Iaith, ac mae'r adborth yn seiliedig ar waith y maent wedi gwneud o dan y thema 'Fy Milltir Sgwâr' - Erbyn diwedd yr uned bydd rhaid i'r disgyblion ysgrifennu darn estynedig am eu hardal lleol.

Cynnwys atodiad 1 yw adborth ysgrifenedig a rhoddir i ddisgyblion ym mlwyddyn 8 ar ôl uned o waith. Mae'r adborth hon yn dilyn dull William a Black (1998) ond hefyd yn bolisi'r ysgol sef i roi llwyddiant y waith o dan y teitl 'Beth aeth yn dda' (BayDd) a tharged o dan y teitl 'Gwell byth os' (GBO). Mae'n polisi'r adran i ddilyn y sylwadau gan gynnwys rhyw fath o darged y gall y disgyblion ymateb iddo er mwyn dangos eu bod wedi deall y targedau ac wedi gweithredu ar y darged mewn ffordd ymarferol. Gwelir yn enghraifft 1 yr atodiad, enghraifft o darged a rhoddir wrth wneud adborth ysgrifenedig am y tro cyntaf. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaeth gyda fy mhentor, sylweddolais bod y darged hon yn hawdd i'r disgybl anwybyddu a nid yw'n mynd i gael effaith mawr ar y camau dysgu nesaf. Gwelir yn enghraifft 2 sut fy mod i wedi datblygu'r dull o roi targedau wrth ofyn i'r disgybl ymestyn brawddegau gan ychwanegu ansoddeiriau sy'n hanfodol wrth ysgrifennu unrhyw waith Cymraeg. Gwelir hefyd cyfle i'r disgybl weithredu ar y darged o dan yr adborth. Felly wrth edrych trwy'r llyfr y tro nesaf byddaf yn gallu gweld os yw'r disgybl wedi deall sut i newid ei gwaith yn ôl y targed ac wedi gwneud yn llwyddiannus.

ATODIAD 2

Enghraifft 1

2 X BAyDd (WWW)

★ I used good sentence patterns.

★ I used good use of vocabulary.

1 X GBO (EBW)

★ I need to be careful when using sentence patterns when I'm writing in third person.

Enghraifft 2

Asesu cyfoed – Peer assessment

Ydych chi wedi....	2 X BAyDd (WWW)
Used key phrases?	★ Written 5 Sentences
Correct spellings?	★ You have capital letters and full stops.
Capital letters and full stops?	1 X GBO (EBW)
Extended sentences?	★ Extend the sentences
Written 10 sentences?	
Are the sentences clear?	

Mae'r enghraifft hwn yn enghraifft o le y mae disgybl wedi gosod targedau a sylwadau perthnasol. Fodd bynnag, yr oedd nifer o ddisgyblion lle yr oedd angen l'r athrawes roi help iddynt o ran beth i ysgrifennu ac yr oedd nifer o ddisgyblion sydd wedi gadael y tudalen yn wag oherwydd nad oeddent yn siŵr beth sy'n creu darn da.


Gwelir sut y mae disgybl hwn wedi gosod sylwadau wth ddefnyddio'r meini prawf llwyddiant a darparwyd gan yr athrawes.

Cafodd y disgyblion y meini prawf llwyddiant cyn gwneud y dasg er mwyn eu helpu gwybod beth sy'n gwneud darn da. Fodd bynnag, weithiau yr oedd y disgyblion yn ansicr o ran sut i wneud pethau gwahanol yn llwyddiannus felly yr oedd dal angen gosod targed yn ôl y meini prawf.

Cynnwys atodiad 2 yw enghraifft o hunan asesu ac asesu cyfoed a gwblhaodd gan ddisgyblion ail iaith blwyddyn saith ar ddiwedd darn o waith ysgrifenedig. Penderfynais ddefnyddio'r dull hwn o asesu ar gyfer dysgu oherwydd mae'n dull sy'n helpu'r disgyblion cydnabod beth sy'n creu gwaith da a sut i ddatblygu'r gwaith. Dywedir gan William bod wrth rhoi sylwadau ar yr hyn y mae cyfoedion wedi ymateb, mae cyfle iddynt adfyfrio ar eu gwaith eu hun ac addasu yn ôl angen (XXX). Gwelir yn enghraifft 1, enghraifft o daflen hunan asesu mi wnes i greu yn un o fy ngwersi cynnar lle yr oedd angen l'r disgyblion ysgrifennu

dwylwyddiant ac un darged yn seiliedig ar y darn o waith. Dilyna'r taflen yr un strwythur a'r adborth ysgrifenedig uchod wrth ddilyn dull William a Black o osod llwyddiant a tharged. Na gosodwyd meini prawf llwyddiant i'r disgyblion er mwyn eu helpu cwblhau'r daflen hon felly sylweddolais yr oedd rhai o'r disgyblion yn cael problemau wrth feddwl am beth i ysgrifennu fel llwyddiant neu darged. Wrth ymchwilio dulliau hunan asesu ac asesu cyfoed, pwysleisiodd Sebba bwysigrwydd meini prawf llwyddiant yn y broses hon wrth ddatgan bod 'Dywedir 'students need to be aware of the targets they are trying to achieve' (2008:2). Felly, gwelir yn atodiad 2 enghraifft o daflen asesu cyfoed mi wnes i greu yn cynnwys meini prawf. Yr oedd y daflen hon yn llawer mwy effeithiol yn y broses asesu oherwydd yr oedd y disgyblion yn gallu edrych trwy'r gwaith ac yn gweld lle oedd y bylchau er mwyn gosod targedau. Helpodd hyn osgoi disgyblion derbyn adborth di-fudd neu amherthnasol i'r dasg.

ATODIAD 3



Mae gallu i weld eu henwau ar y sgrin pob tro imi ofyn cwestiwn wedi gwneud y disgyblion ffocysu ar y cwestiynau a sut y gallent ateb.

Wrth ddefnyddio'r dull hwn yr oedd yn anodd cadw'r wers yn llifo'n naturiol.

Mantais y dull hwn yw bod y generadur yn hawdd defnyddio ac ei bod yn gyflym i baratoi.

Mae'r atodiad hwn yn dangos llun o'r generadur enw ar hap a defnyddiwyd yn nosbarth blwyddyn 8 wrth gwestiynu'r disgyblion. Defnyddiwyd y wefan classtools.net er mwyn creu'r olwyn a mi wnes i rhoi enw pob disgybl y dosbarth yn y generadur. Wrth ofyn gwestiwn i'r

dosbarth, mi wnes i ofyn y cwestiwn, wedi rhoi dwy funud l'r disgyblion feddwl am yr ateb ac wedyn mi wnes i ddefnyddio'r olwyn er mwyn dewis enw disgybl i ateb. Wrth wneud hyn, yr oedd rhaid i bob disgybl meddwl am yr ateb rhag ofn l'r olwyn dewis eu henw. Er bod gweithiodd yr olwyn yn dda o ran cael pob disgybl i feddwl, mae'n cymryd llawer o amser i ddefnyddio'r dull hwn ac erbyn diwedd y cwestiynu yr oedd y disgyblion wedi diflasu. Dewisodd y dull hwn o gwestiynu oherwydd awgrymwyd gan Allison a Tharby bod technegau sy'n gorfodi'r disgyblion i feddwl am yr ateb hyd yn oed os nad ydynt yn mynd i rannu'r ateb gyda'r dosbarth yn effeithiol o ran cadw ffocws y dosbarth. (2015:?) Fodd bynnag y tro nesaf hoffwn i ddefnyddio dull sydd ddim yn effeithio ar sut y mae wers yn llifo.

ATODIAD 4

Sesiwn Gloi	- Tasg creu Kahoot. Bydd y disgyblion yn defnyddio'r Ipads er mwyn creu Kahoot. Bydd rhaid iddynt gweithio mewn grwpiau er mwyn creu 10 cwestiwn gan ddefnyddio'r geirfa y maent wedi'i dysgu yn y wers. Er enhrafft, Beth yw museum yn Gymraeg? - Bydd rhaid i'r disgyblion feddwl am yr ateb cywir ac atebion anghywir er mwyn creu'r cwis. Bydd hyn yn eu helpu nhw adolygu y hyn y maent wedi dysgu.	- Defnyddio'r Ipads a'r rhaglen Kahoot - Defnyddio wybodaeth o'r wers er mwyn creu Kahoot i'r ddosbarth.	- Ipads - Tudalennau help - Rhestr o eirfa
-------------	--	--	--

Yr oedd y disgyblion yn gyfarwydd gyda'r rhaglen Kahoot trwy chwarae gemau cwis yn yr ysgol o fewn pynciau gwahanol. Fodd bynnag trwy ddefnyddio'r rhaglen i creu cwis, yr oedd y disgyblion yn ei defnyddio mewn ffordd gwahanol er mwyn hwyluso'r dysgu yn ogystal â datblygu sgiliau digidol.

Mae gan yr adran Ipads sy'n cael eu defnyddio yn aml er mwyn cwblhau tasgau digidol yn y wersi. Fodd bynnag, weithiau mae disgyblion yn eu defnyddio er mwyn chwarae gemau yn lle gwneud y dasg. Felly, trwy ddefnyddio tasg sydd wedi ennyn diddordeb y disgyblion yr oedd y risg hon llai o broblem.

Gwelir yn yr atodiad hwn rhan o gynllun gwrs lle yr oedd ffocws ar gymhwysedd digidol. Yr oedd y dasg hon yn rhan o wers blwyddyn 8, Cymraeg ail iaith. Yn y wers yr oedd y disgyblion yn dysgu termau allweddol i gyd-fynd â'r thema Fy Milltir Sgwâr. Fel dasg gloi yr oedd rhaid i'r disgyblion creu cwis ar lein gan ddefnyddio Ipad's yr adran a'r rhaglen Kahoot. Ffocysu'r dasg hon ar ddatblygu sgiliau creu y disgyblion sy'n cyd-fynd â'r fframwaith cymhwysedd digidol. Mwynhaodd y disgyblion gwneud y dasg hon yn fawr iawn oherwydd y maent yn chwarae'r gêm mewn gwrsi eraill ac yr oedd yn awyddus iawn i weld sut y mae gemau yn cael eu creu. Mae hyn yn cyd-fynd â syniad yng ngwaith Hague a Payton (2010) lle maent yn pwysleisio pwysigrwydd y disgyblion deall sut i greu pethau digidol gan ddefnyddio nifer o rhaglenni gwahanol. Yn ogystal â datblygu sgiliau digidol wrth wneud y dasg hon, datblygodd y disgyblion sgiliau Cymraeg oherwydd yr oedd rhaid iddynt meddwl am batrymau y maent wedi dysgu er mwyn eu rhoi nhw yn y cwis ac yn dewis yr ateb cywir i'r cwestiwn.

Gwelir yma enghraifft o sut yr oedd y ddefnydd o gymhwysedd digidol hefyd yn hwyluso dysgu'r disgyblion o fewn y pwnc.

Yr oedd rhaid i'r disgyblion gyfathrebu ar lafar gydag aelodau eraill y dosbarth sydd wedi datblygu eu sgiliau llafaredd a sgiliau llythrennedd ar y cyfan.

ATODIAD 5

ATODIAD 5

Yn oeddi hysgrifennu ysgrifennu ar llafer
gydag aelodau eraill y dosbarth sydd wedi datblygu
eu sgiliau llafaredd a sgiliau llythrennedd ar y cyfan.

Tasg ysgrifennu / Llafar

Disgrifio fy ardal leol (describing my local area)

Rydw i'n byw yng
Fy nghyfeiriad i yw...
Fy nghôd post i yw...
Fy rhif ffôn i yw...

Ng haerfyrdclun
Ng haerfyrdclun
Ng haerfyrdclun
Ng

Ng haerfyrdclun x3

ENW

	Beth sydd yn yr ardal? (what's in your area?)	Beth sydd ddim yn yr ardal? (what isn't in your area?)	Wyt ti'n hoffi byw yn yr ardal? (do you like living in the area?)	Pam? (rhesymau estynedig)	Beth hoffet ti gael yn yr ardal? (what would you like to have in your area?)
1) Fi	Mc Donalds	traeth	Ydw	Mae'r ardal yn beth iawn	disgo
2) Yuta	Siop	Caffi	Ydw	Hwy	Tafarn
3) Roman	parc	traeth	Ydw	dawel	tafarn
4) Jacob	ysgol	ty bwyta	Ydw	wahanol	pull naffio
5) Jess	siop	traethau	Ydw	dawel	traeth

✓ Gwych!

Gwelir cwestiynau yr oedd
rhaid i'r disgyblion gofyn er
mwyn cael yr atebion i llenwi'r
bylchau. Yr oedd y cwestiynau
hyn yn seiliedig ar batrymau y
mae disgyblion wedi bod yn
dysgu yn ystod y gwersi
diwethaf.

Gwelir yma tystiolaeth o'r
disgyblion ysgrifennu ac
ymarfer geiriau a themau
allweddol.

Mae'r atodiad yma yn enghraifft o dasg llafar sydd wedi cysylltu ag elfen llythrennedd y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Ar ôl astudio geiriau allweddol y thema Fy Milltir Sgwâr yr oedd rhaid i'r disgyblion cerdded o gwmpas y dosbarth ac yn cael sgwrs yn Gymraeg am eu hardaloedd lleol er mwyn llenwi grid. Er mwyn llenwi'r bylchau, yr oedd rhaid i'r disgybl gofyn cwestiwn yn Gymraeg e.e Beth sydd yn yr ardal? Ac yr oedd rhaid i'r disgybl ymateb wrth ddefnyddio geiriau allweddol. Ar ôl gwrandao at yr ymateb, wnaeth y disgybl nodi yr ateb ar bapur. Mae fframwaith llythrennedd, yn benodol adran llafaredd y fframwaith yn ffocysu ar ddefnydd o'r iaith mewn cyd-destun sydd yn berthnasol ac yn dilyn l'r byd go iawn. Trwy wneud y dasg hon, gwelodd y disgyblion berthnasedd yr hyn yr oeddent yn dysgu yn ogystal â datblygu sgiliau llafar wrth adrodd patrymau a brawddegau ar lafar. Gellir dadl bod datblygodd y disgyblion sgiliau ysgrifennu hefyd wrth sillafu geiriau allweddol yn gywir yn y bylchau.

ATODIAD 6

HOBÍ	POSITIF	NEGyddOL	ANSODDAIR	CYTUNO?
Nofio	✓		Mwynhau	
Pêl-droed	✓		Fendigedig	
Criced		✓	Ddiflas	
Xbox		✓	Wastraff amser	

Tasg Ddarllen 

Helo, Lewys ydw i ac rydw i'n mwynhau nofio bob dydd. Yn fy marn i mae nofio yn gyffrous. Weithiau ar y penwythnos, rydw i'n chwarae pêl-droed gyda fy ffrindiau. Dw i'n meddwl bod pêl-droed yn fendigedig. Mae fy mrawd Rowan yn hoffi chwarae criced, ond i fod yn onest mae criced yn ddiflas. Wyt ti'n hoffi chwarae criced? O dro i dro rydw i'n chwarae Xbox gyda Rowan. Mae e'n chwarae Xbox ar ôl ysgol ond dw i'n credu bod chwarae Xbox yn wastraff amser.

Wnaeth y teitlau roi syniad i'r disgyblion o'r math o eiriau y mae angen darganfod yn y testun.

Mwynhaodd y disgyblion cael y cyfle i roi eu barn personol yn y dasg a helpodd hyn y disgyblion datblygu eu sgiliau mynegi barn.

Mi wnes i strwythuro'r darn darllen gan gynnwys brawddegau sydd wedi cael eu strwythuro mewn ffordd cyfarwydd i'r disgyblion. Fodd bynnag, mi wnes i ychwanegu idiomau a brawddegau estynedig er mwyn cynnwys her i'r disgyblion.

Gwelir yn atodiad 6 enghraifft o dasg darllen a deall a defnyddiwyd yng ngwers blwyddyn 7. Yr oedd thema'r wers 'Hobiau ac amser hamdden'. Amcan y dasg hon oedd imi weld os yw'r disgyblion yn deall y geiriau allweddol mewn cyd destun gwahanol. Penderfynwyd ar dasg darllen a deall oherwydd pwysleisia Wagoner sgiliau darllen a deall wrth ddatblygu darllenwyr hyderus. Yr oedd y dasg hon yn

dasg lle datblygodd y disgyblion eu sgiliau llafaredd ac yn benodol sgiliau darllen a deall. Yn ôl y fframwaith, dylai disgyblion blwyddyn 7 gallu cydgasglu a chrynhai gwybodaeth berthnasol ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau darllen er mwyn deall gwybodaeth. Penderfynwyd defnyddio'r dasg hon oherwydd yr oedd yn ffordd strwythuredig o asesu'r sgiliau hyn ac yn gofyn l'r disgyblion defnyddio'r sgiliau hyn. Fodd bynnag, y tro nesaf byddaf yn sicrhau cynnwys cyfieithiadau ar gyfer teitlau y grid er mwyn sicrhau dealltwriaeth y disgyblion o'r hyn yr oedd angen darganfod yn y testun.

Adeiladu ar Wybodaeth Blaenorol ac Ennyn Diddordeb

Wednesday, October 30, 2019 3:51 PM

ATODIAD 7

Saesneg	Cymraeg
She likes	Mae hi'n hoffi
he likes	Mae e'n hoffi
Joe likes	mae joe yn hoffi
They like	mae ngw yn hoffi
She doesn't like	Dydy hi ddim yn hoffi
He doesn't like	Dylw yn hoffi
Joe doesn't like	Dydy Joe ddim yn hoffi
They don't like	Dydy nhw ddim yn hoffi

Mi wnes i benderfynu rhoi rhai o'r ymadroddion Saesneg gyda bylchau yn y colofn Cymraeg a rhai y gwrthwyneb er mwyn sicrhau dealltwriaeth llwyr y disgyblion gan osgoi iddynt ddysgu y patrymau heb y cyfieithiadau.


Mae'r patrymau a defnyddiwyd yn y dasg hon yn patrymau sylfaenol yn y Gymraeg felly bydd rhaid i'r disgyblion eu dysgu nhw a fod yn hyderus wrth ddefnyddio nhw felly bydd rhaid ail ymweld â'r patrymau ac yn eu atgyfnerthu trwy gydol eu hamser yn yr ysgol.

Mae'r dasg hon yn dasg danio a defnyddiwyd yn ngwers blwyddyn 7. Yn y wers diwethaf, canolbwynt y wers oedd defnyddio'r trydydd person. Dysgodd y disgyblion y patrymau ar gyfer *She likes*, *He likes*, *They like* a'r ffurfiau negyddol. Amcan y wers hon oedd i ysgrifennu darn am ffrindiau a beth y maent yn hoffi gwneud yn eu hamser hamdden, felly er mwyn gwneud hyn yr oedd rhaid defnyddio'r patrymau hyn. Er mwyn atgyfnerthu'r patrymau hyn, ac yn eu defnyddio er mwyn hwyluso'r dysgu yn y wers nesaf, penderfynodd ddefnyddio'r tabl hwn ar ddechrau'r wers fel tasg danio. Wrth wneud hyn yr oedd cyfle i'r disgyblion ail ymweld â wybodaeth ac yn dwyn i gof yr ymadroddion er mwyn eu defnyddio yn y dasg nesaf. Gweithiodd y dasg yn dda, fodd bynnag yr oedd yn amlwg nad oedd yn llwyddiannus o ran ennyn diddordeb y disgyblion. Ni fwynhaodd y disgyblion gwblhau'r dasg yn fawr iawn ac rwy'n meddwl cafodd

hyn effaith ar ddysgu'r disgyblion oherwydd nad ydynt yn debygol o gofio wybodaeth lle nad oedd diddordeb. Mi wnes i ofyn i'r disgyblion ar ddiwedd y wers i adrodd y patrymau o'r dasg danio ac mae rhan fwyaf wedi anghofio'r dasg yn llwyr.

ATODIAD 8

• Drilio'r geirfa, gofyn i'r disgyblion ail adrodd y geiriau ar ôl fi gan gywiro camgymeriadau os ydynt yn codi. • Cwestiynu a herio rhai disgyblion • Esbonio'r gêm paru a rhoi'r geiriau i'r disgyblion. Gofyn rhywun i ail adrodd i sicrhau bod pawb yn deall. • Gofyn iddynt mynd nôl i'r llyfrau ac	• Ail adrodd y geiriau yn glir ar ôl yr athrawes. Bydd rhai yn rhoi nhw mewn brawddegau. • Gweithio gyda'i gilydd i baru'r geirfa gyda'r cyfieithiadau wrth drafod yn Gymraeg. • Ysgrifennu brawddegau yn eu llyfrau.
--	---



Gwelir rhan o'r cynllun gwers lle mae'n sôn am y dasg hon a sut yr oedd y dasg yn mynd i hwyluso'r dysgu yn ogystal â sgiliau llafar y disgyblion.


Dyma enghraifft o'r cerdyn, yr oedd gan pob disgybl un o'r cerdyn hyn naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Wrth drafod yn y Gymraeg, yr oedd rhaid iddynt ddarganfod eu partner gyda'r cyfieithiad o'r gair sydd ganddynt.


i sillafu geiriau allweddol.
4) Wrth gwblhau'r dasg lafar sef tasg datrys problem, bydd y disgyblion yn dod yn gyfarwydd gyda phatrymau allweddol a'u cyfieithiadau. Bydd y disgyblion yn gallu creu brawddeg ar lafar gan ddefnyddio'r geirfa sy'n dangos eu dealltwriaeth o'r patrymau brawddeg a geiriau allweddol. Bydd y disgyblion yn

Gwelir enghraifft o gêm a defnyddiwyd er mwyn eu helpu'r disgyblion dwyn i gof ymadroddion y maent wedi bod yn dysgu yn y wers diwethaf. Defnyddiodd y dasg hon fel tasg danio oherwydd bod yr ymadroddion hyn wedi cael eu cyflwyno i'r disgyblion yn y wers ddiwethaf. Felly, penderfynwyd defnyddio'r dull hwn er mwyn atgyfnerthu'r ymadroddion a rhoi cyfle i'r disgyblion dwyn i gof y wybodaeth. Yr oedd amcan y dasg i'r disgyblion cael y gallu i gyfieithu'r geiriau allweddol ac yn eu rhoi mewn brawddeg. Defnyddiais gêm er mwyn ennyn diddordeb y disgyblion oherwydd dywedir bod gemau yn ffordd dda o gael y disgyblion i adolygu heb y

deimlad eu bod yn gwneud gwaith caled. Dywedir 'through lively games...students willingly use the vocabulary and structures, repeatedly gaining much-needed practice' (Education World: 2013). Gweithiodd y dasg hon yn dda iawn oherwydd mwynhaodd y disgyblion y gêm a gofynnodd nhw i chwarae eto ar ôl orffen. Wrth brofi'r disgyblion ar yr ymadroddion ar ddiwedd y gêm ac ar ddiwedd y wers, yr oedd yn glir bod y disgyblion yn fwy hyderus gyda'r ymadroddion a roeddent yn cysylltu atgofion o'r gêm gyda'r ymadroddion er mwyn eu helpu nhw gofio. Byddaf yn defnyddio'r dull eto oherwydd teimlais yr oedd yn ffordd effeithiol iawn o adeiladu ar wybodaeth blaenorol ac yn adolygu mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb y disgyblion.

ATODIAD 9





Gwelir yn atodiad 9 enghraifft o dasg danio arall a defnyddiwyd ar ddechrau gwrs blwyddyn 7. Yr oedd amcan y dasg i ymarfer defnyddio patrymau brawddeg y mae disgyblion wedi dysgu yn y wers flaenorol er mwyn creu neges am eu hobiau a beth y maent yn hoffi gwneud yn eu hamser hamdden. Penderfynais ddefnyddio'r templed a'r syniad o greu neges at ffrind er mwyn ennyn diddordeb y disgyblion oherwydd wrth wneud y dasg yn y ffordd hwn, mae'n llawer mwy cyfoes ac yn berthnasol i'r disgyblion nag ysgrifennu llythyr/darn o waith. Yr oedd y dasg hon yn effeithiol oherwydd ar ddiwedd y wers mi wnes i ddarllen y negeseuon a gwelwyd bod pob disgybl wedi cwblhau'r dasg yn llwyddiannus. Wrth wneud y dasg hefyd yr oedd yn amlwg mwynhaodd y disgyblion. Fodd bynnag, wrth adfyfrio ar y dasg hon, efallai bydd angen imi gweithio a rheolaeth o'r dosbarth wrth wneud tasgau fel hyn oherwydd yr oeddent yn gyffrous iawn ac weithiau yr oedd yn anodd sicrhau bod pawb ar dasg. Trwy ddefnydd o'r dasg hon i greu darn estynedig, yr oedd y disgyblion yn adeiladu ar eu gwybodaeth blaenorol ac yn ei defnyddio ac yn addasu er mwyn creu gwybodaeth newydd sy'n dangos cynnydd. Dilyna'r syniad hwn theori Brūner a thrafodwyd yn adran adfyfyriad beirniadol y traethawd hwn.

Adfyfyriad Beirniadol

Wednesday, October 30, 2019 3:51 PM

Amcan y portffolio hwn yw cydnabod beth yw dysgu ac addysgu da gan ganolbwyntio ar egwyddorion addysgegol a nodwyd gan yr athro Graham Donaldson yn ei ddrafft o'r cwricwlwm newydd i Gymru (2016) Canolbwyntia'r portffolio hwn ar dair egwyddor benodol sef; Asesu ar gyfer dysgu, cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd ac adeiladau ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol gan ennyn diddordeb. Bydd y traethawd hwn yn adfyfyrio yn feirniadol ar gynnydd a wnaed wrth gynllunio a gweithredu'r tair egwyddor addysgegol yn ystod fy mhrofiad addysgu proffesiynol cyntaf. Dewiswyd canolbwyntio ar y drydedd egwyddor sef adeiladu ar wybodaeth flaenorol ac ennyn diddordeb oherwydd bod gan yr ysgol bolisi o gynnwys tasg danio ym mhob gwers er mwyn ail ymweld â gwybodaeth o'r wers flaenorol. Felly, gwelwyd cyfle i ymchwilio effeithiolrwydd gwahanol ddulliau o fewn yr egwyddor er mwyn fy helpu cynllunio ar gyfer y tasgau hyn ac ar gyfer fy natblygiad proffesiynol ar y cyfan.

•

Diffinia Black *et al* asesu ar gyfer dysgu (AagD) fel 'any assessment for which the purpose is to promote student's learning' dywedir 'it is usually informal imbedded in all aspects of teaching and learning' wrth esbonio ymhellach diffinia Llywodraeth Cymru asesu ar gyfer dysgu fel 'y broses o ddarganfod y man y mae dysgwyr wedi'i gyrraedd o fewn continwrm dysgu, y man y mae angen iddynt anelu ato, a'r dull gorau o gyrraedd y man hwnnw' (2003, t.3) Felly, fel y gwelir yn y dyfyniadau uchod AagD yw asesiadau anffurfiol sy'n digwydd yn aml a helpu'r disgyblion a'r athro darganfod pa mor effeithiol y mae'r dysgu wedi bod a sut i gyrraedd y cam nesaf.

Mae AagD yn un o'r dulliau sy'n sylfaenol er mwyn sicrhau dysgu ac addysgu da. Yn ôl yr athro Donaldson, 'mae dull asesu ar gyfer dysgu yn galluogi ymarferwyr i ddeall effeithiolrwydd y dysgu ac yn rhoi adborth rheolaidd ac ystyrlon ac addasu addysgu a deunyddiau i gwrdd ag anghenion unigolion'. (2016: tt.67-8). Yn ogystal â chael effaith positif ar yr athrawon a sut y maent yn gallu cynllunio er mwyn hwyluso'r dysgu. Mae consensws cryf rhwng y llenyddiaeth bod AagD yn helpu'r disgyblion datblygu. Yn ôl adroddiad Llywodraeth Cymru mae AagD yn cael effaith positif ar gymhelliant y disgyblion i ddysgu yn ogystal â sut y maent yn perfformio. (2010, t.3) Mae hyn yn cael ei chefnogi yng ngwaith Dunn a Mulevenon lle y maent hefyd yn tynnu sylw at sut mae asesu ar gyfer dysgu yn datblygu cymhelliant a pherfformiad. (2009, tt.1-11)

Wrth gymharu manteision ac anfanteision AagD ac asesu crynolol dadleua McAlpine bod y broblem gydag asesiadau ffurfiannol yw nad yw'n cynrychioli'r hyn y mae disgyblion yn gallu gwneud ar ôl adolygu a hefyd yn gallu cael ei dylanwadu gan ragfarn neu duedd yr athro sy'n arwain yr asesu. (2002, t.7) Felly, er mwyn ystyried effaith AagD a sut y gall cael ei defnyddio mewn ffordd effeithiol, bydd y

traethawd hwn yn gwerthuso'n feirniadol ar fy ngweithred o strategaethau asesu ar gyfer dysgu gwahanol yn yr ystafell ddosbarth a'r effeithiolrwydd a gwelwyd yn ystod y broses.

Mae egwyddor arall sy'n hanfodol i ddysgu ac addysgu da yw cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Awgryma Donaldson 'Drwy ddysgu ac addysgu da bydd y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer' (2016, t.68). Wrth fynd ymhellach, dywedir bydd y weithred o gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn cynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. (2016, t.68) Yn y gorffennol, mae dull o ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth bynciol wahanol ar draws y meysydd wedi cael ei chyfeirio atynt fel dull rhyngddisgyblaethol. Diffinia Jacobs y dull hwn gan ddatgan bod 'Interdisciplinary/cross-curricular teaching involves a conscious effort to apply knowledge, principles, and/or values to more than one academic discipline simultaneously. (1989). Yn wahanol i'r diffiniad hwn, pwysleisia Donaldson bwysigrwydd y weithred o'r tair sgil penodol. Er mae term trawsgwricwlaidd ar sail y tri sgil yn eithaf newydd, mae diffyg llenyddiaeth sy'n trafod effaith yr egwyddor gyda phwyslais ar y tri sgil hyn. Felly, bydd adran adfyfrio'r traethawd yn edrych ar fanteision ac anfanteision gweithredu'r sgiliau ar draws y cwricwlwm gan ganolbwyntio ar y sgiliau yn unigol.

Mantais sy'n cael eu trafod yw'r defnydd o'r sgiliau hyn er mwyn helpu'r disgyblion ddyfnhau eu dealltwriaeth. Dywedir gan Rose 'subjects will be complemented by worthwhile and challenging cross-curricular studies that provide ample opportunities for children to use and apply their subject and skills to deepen understanding'. (2009, t.10) Dadleuir y gallai athrawon sy'n gweithredu dull trawsgwricwlaidd fod mewn perygl o golli'r wybodaeth pwnc ac o ganlyniad bydd gwybodaeth pwnc y disgyblion yn llai. Dywed Jones fod 'professors who focus on interdisciplinary studies, isolate themselves from the core of the field' sy'n golygu eu bod yn dueddol o dalu mwy o sylw at y sgiliau hyn na'r pwnc y maent yn dysgu. Tynna Donaldson sylw at y broblem hon gan ddatgan 'yr her o ran addysgu o ganlyniad i fabwysiadau'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd fydd parhau i ganolbwyntio ar y cyfrifoldebau hyn yn ystod y broses addysgu a dysgu' (2016, t.69) Cynigir ateb i'r mater gan sôn am y pwysigrwydd 'cymhwyso'r sgiliau mewn ffordd naturiol a dilys yn hytrach nag fel elfennau ychwanegol' (2016, t.69). Felly, wrth ystyried y llenyddiaeth hon, mae'n rhaid sicrhau bod y cyfleoedd i'w defnyddio yn dod yn naturiol er mwyn hwyluso'r dysgu o'r wybodaeth pwnc.

Mae trydedd egwyddor sy'n cael ei thrafod yn y traethawd hwn yw egwyddor pump yn adroddiad Donaldson. Yn ôl yr athro, 'mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb'. (2016, t.67) Mae'r syniad o ddefnyddio profiadau blaenorol y disgyblion er mwyn hwyluso'r dysgu yn syniad sy'n dod o'r theori adeiladol. Dywedir bod canolbwynt y theori hon yw bod y dysgwyr yn defnyddio gwybodaeth flaenorol

fel sylfaen a bod y dysgu yn digwydd wrth i'r disgyblion adeiladau ar yr hyn y maent wedi dysgu yn y wers flaenorol. (McLeod, 2019) Mae Jerome Bruner, o fewn y theori dysgu adeiladol yn pwysleisio pwysigrwydd ail ymweld â gwybodaeth flaenorol er mwyn sicrhau bod y dysgu ac addysgu yn llwyddiannus. Gwelir hyn yn ei fodel o'r cwricwlwm sbiral lle mae pwyslais ar ddefnyddio'r hen wybodaeth er mwyn creu gwybodaeth newydd. (1996).

Yn fy ysgol leoliad, mae ganddynt bolisi o ddechrau pob gwers gyda 'tasg danio' sy'n dasg gyflym i'r disgyblion cwblhau ym mhym munud cyntaf y wers. Fel arfer mae tasgau hyn yn dasgau sy'n adolygu ar yr hyn mae disgyblion wedi eu dysgu yn y wers flaenorol. Mae hyn yn rhoi amser i'r disgyblion dwyn i gof y wybodaeth ac i sicrhau dealltwriaeth. Disgrifia Howard manteision theori Bruner wrth ddweud trwy ail ymweld â'r hen wybodaeth 'the information is reinforced and solidified each time the student revisits the subject matter'. (2013, t.1) Gellir dadlau bod yn anodd sicrhau bod y dull hwn yn effeithiol i bawb yn yr ystafell ddosbarth oherwydd ni fyddaf yn gallu cadarnhau bod gan bob disgybl yr un wybodaeth flaenorol. Dywed Gangwar a Savita fod 'with an average number of students in one classroom, teachers are unable to customise the curriculum to each student, as their prior knowledge will vary'. (2017, t.73) Mae hyn wedyn yn gwneud yn anodd i'r athro sicrhau bod gan bawb yr un cyfle i ddatblygu yn ôl gofynion yr egwyddor dan sylw.

Yn ail ran yr egwyddor hon, trafodir pwysigrwydd ennyn diddordeb y disgyblion er mwyn sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol. Wrth drafod rôl yr athro dyweda Robinson (2015, t.104) fod 'they need to encourage, inspire and enthuse students by creating conditions in which those students will want to learn'. Datganir hefyd bod wrth wneud hyn bydd y disgyblion yn debygol iawn o lwyddo. Wrth wneud hyn awgrymir bod yn bwysig i ystyried bod pob disgybl yn wahanol felly, na fydd rhywbeth sy'n ennyn diddordeb un disgybl, ennyn diddordeb pawb yn y dosbarth. Trafodir yng ngwaith Robinson bod angen i'r athrawon newid eu strategaethau a dulliau er mwyn cwrdd ag anghenion yr unigolyn ac i ennyn diddordeb o bob un. (2015, t.106)

Canolbwyntir rhan nesaf y traethawd ar fy nghynnydd wrth gynllunio a gweithredu ar y tair egwyddor dan sylw yn ystod fy mhrofiad addysgu. Canolbwyntia atodiad 1 ar adborth. Dilyna is fodel William er mwyn rhoi'r adborth hon gan gynnwys dau lwyddiant a tharged er mwyn gwella'r gwaith. Dywedir 'Feedback to any pupil should be about the particular qualities of the work with advice on how to improve' (2005, t.6) Mae strategaeth hon yn effeithiol er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn talu sylw at beth y maent wedi gwneud yn dda a sut i ddatblygu yn lle canolbwyntio yn unig ar y marciau y maent wedi ennill. Pwysleisia William bwysigrwydd adborth ysgrifenedig dros farciau caled wrth ddatgan bod yn aml farciau a graddau yn cael eu gweld yn bwysicach na chynghor am sut i wella. (2005, t.6) Wrth ystyried y llenyddiaeth uchod, gwelir pwysigrwydd adborth ysgrifenedig er mwyn helpu'r disgyblion

cyrraedd cam nesaf y dysgu oherwydd wrth ddefnyddio marciau yn unig fydd sut i ddatblygu yn aneglur.

Yn enghraifft gyntaf atodiad un, gwelir defnydd o ddau lwyddiant a tharged. Gweithiodd hyn yn dda oherwydd yr oedd cyfle i'r disgyblion cydnabod beth wnaethon nhw yn dda a beth y mae angen gwneud er mwyn gwella. Ar ôl darparu'r adborth, yr oedd yn amlwg nad oedd pob disgybl yn talu sylw i'r sylwadau a rhoddir, gyda nifer o ddisgyblion yn anwybyddu'r sylwadau yn llwyr. Felly, yn y wers nesaf, penderfynwyd dilyn dull Black gwahanol sef i roi cyfle i'r disgyblion ymateb i dargedau fel rhan o'r broses adborth. (2007, t.6) Yr oedd y dull hwn yn fwy llwyddiannus oherwydd yr oedd rhaid i'r disgyblion ddarllen yr adborth er mwyn ymateb i'r sylwadau ac wrth wneud hyn, cawsant nhw brofiad ymarferol o wella'r gwaith cyn symud ymlaen. Er mwyn datblygu ymhellach, tro nesaf, byddaf yn defnyddio dull Shirley Clarke wrth roi adborth ysgrifenedig gan gynnwys cyngor ar sut yn benodol i wella'r gwaith. (2005, t.9).

Ffocysir ail atodiad ar hunan asesu. Yn fy ngwersi cynnar, defnyddiwyd strwythur y gwelwir yn y llun cyntaf sef i'r disgyblion roi dwy seren a dymuniad yn ôl eu gwaith. Wrth wneud hyn yr oedd yn amlwg roedd rhai o'r disgyblion yn gweld yn anodd meddwl am dargedau a phwyntiau penodol. Trafodwyd yng ngwaith Sebba *et al.* pwysigrwydd meini prawf llwyddiant yn y broses asesu cyfoed. Dywedir 'students need to be aware of the targets they are trying to achieve' (2008, t.2) Felly wrth wneud hunan asesu gyda'r un dosbarth y tro nesaf mi wnes i ddarparu meini prawf llwyddiant gyda'r daflen hunan asesu. Gweithiodd hyn yn dda oherwydd wrth wneud yr asesu roedd y disgyblion yn gallu cyfeirio at y meini prawf er mwyn eu helpu penderfynu ar gryfderau a gwendidau eu gwaith. Cefnoga William y syniad hwn wrth ddatgan 'pupils can only assess themselves when they have a clear picture of the targets their learning is meant to attain'. (2005; t.9).

Canolbwyntia'r trydydd atodiad ar ddefnydd o gwestiynu. Ar ddechrau'r cyfnod ar leoliad, defnyddiais ddull dwylo fyny. Wrth wneud hyn, sylweddolais yr oedd yr un disgyblion yn ateb y cwestiynau pob tro. Beirniadir y dull hwn gan Allison a Tharby wrth ddweud gan ganiatáu'r un disgyblion i ateb y cwestiynau pob tro na fydd weddill y dosbarth yn canolbwyntio ar y pwnc. (2015) Felly, awgrymwyd bod dull o ddewis y disgyblion ar hap yn ffordd effeithiol sy'n helpu osgoi'r broblem hwn. Yr oedd y dull hwn yn llwyddiannus oherwydd yr oedd yn amlwg bod pob disgybl yn canolbwyntio rhag ofn dewiswyd eu henwau. Awgrymwyd gan Allison a Tharby bod technegau cwestiynu sy'n gorfodi'r disgyblion i feddwl am yr ateb hyd yn oed os nad ydynt yn eu rhannu yw'r technegau sy'n fwyaf effeithiol. (2015) Wrth ddefnyddio'r dull hwn, sylwais nad oedd y wers y llifo'n naturiol.

Canolbwyntir atodiadau 4,5 a 6 ar fy ngweithred o gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, ffocysir atodiad 4 ar

gymhwysedd digidol. Yn fy ngwersi cynnar er mwyn defnyddio elfen o gymhwysedd digidol, yr oeddwn yn gosod tasgau syml fel chwilio am wybodaeth. Ar ôl darllen erthygl Hague a Payton, sylweddolais bwysigrwydd cael y disgyblion i ddefnyddio eu sgiliau digidol er mwyn bod yn greadigol. Dywedir 'Becoming digitally literate involves not just being active in exploring digital media but also in creating it and understanding that it is created' (2010, t.22) Yr oedd y dasg hon yn llwyddiannus oherwydd yr oedd rhaid i'r disgyblion nid yn unig defnyddio eu sgiliau digidol er mwyn creu rhywbeth ond wrth wneud y broses o greu cwis, yr oeddent yn ail ymweld â gwybodaeth ac yn eu defnyddio mewn cyd-destun gwahanol sydd wedi helpu atgyfnerthu'r wybodaeth. Wrth arsylwi gwersi, sylweddolais yr oedd yn anodd i'r athro sicrhau yr oedd pawb ar dasg. Felly, penderfynais ddefnyddio dasg i ennyn diddordeb y disgyblion er mwyn lleihau'r risg. Dywedir 'Fostering digital literacy means going beyond the presentational and giving students the opportunity to use a wide range of technologies collaboratively and critically'. (2010, t.22) Wrth ddefnyddio'r wefan Kahoot, cafodd y disgyblion gyfle i wneud rhywbeth gwahanol i'r arferol sydd wedi eu helpu datblygu sgiliau digidol yn ogystal ag ennyn diddordeb.

Ffocysir atodiad 5 ar llythrennedd. Fel athrawes iaith, mae llythrennedd yn rhan o bob gwers. Yn ôl y cwricwlwm (2011) dylai pob gwers Cymraeg cynnwys cyfle i ddatblygu sgiliau darllen, llafar ac ysgrifennu oherwydd wrth gwblhau'r cwrs TGAU bydd asesiad ar y tair sgil sydd hefyd yn creu'r fframwaith llythrennedd. Yn yr enghraifft hon defnyddiwyd y dull dysgu cyfathrebol er mwyn datblygu sgiliau llafar y disgyblion. Trwy ddefnydd o'r dull hwn, yr oedd cyfle i'r disgyblion ymarfer defnyddio patrymau a geirfa mewn cyd-destun naturiol ar lafar. Dywedir fod defnydd o'r ail iaith yn y cyd-destun hwn yn hanfodol er mwyn er mwyn eu paratoi nhw at gyfathrebu yn yr iaith yn y byd go iawn. (Dim dyddiad)

Yr oedd yn amlwg mwynhaodd y disgyblion y dasg oherwydd yr oedd yn dasg wahanol iddynt. Wrth wneud y dasg hon, nid oeddwn yn teimlo ei fod yn fuddiol iawn i nodau cyffredinol y wers ac efallai ei fod wedi'i ddefnyddio fel ffordd o gynnwys y sgiliau trawsgwricwlaidd yn unig ac wrth ystyried y llenyddiaeth uchod, yr oedd hwn yn bryder mawr Donaldson am y weithred o sgiliau trawsgwricwlaidd (2016, t.96)

Yn fy ngwersi cynnar, yr oeddwn yn dueddol o gynllunio tasgau llafar er mwyn cynnwys elfen o llythrennedd oherwydd yr oeddwn yn gyfforddus gyda sut i'w gynllunio er mwyn sicrhau datblygiad y disgyblion yn eu sgiliau llafar. Wrth ystyried gwaith May a Wright (2008) er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd mae'n rhaid cynnwys tasgau darllen, ysgrifennu a gwrando. Felly, canolbwyntir atodiad 6 ar dasg sydd wedi canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau darllen a deall y disgyblion. Mi wnes i gynllunio'r dasg wrth ddilyn y fframwaith llythrennedd blwyddyn 7, felly mae'r dasg hon yn cyrraedd at dair elfen y fframwaith darllen sef defnyddio strategaethau darllen gwahanol er mwyn darganfod gwybodaeth,

cydgasglu a chrynhoi gwybodaeth berthnasol a chanolbwyntio ar destunau newydd gan ddeall y wybodaeth. Yr oedd yn fuddiol i ystyried y fframwaith wrth gynllunio'r dasg hon oherwydd gosodwyd canllawiau clir o'r hyn y dylai tasg llythrennedd ei chynnwys ar gyfer y grŵp oedran hwn. Wrth adfyfrio ar y dasg dan sylw yr oedd yn eithaf heriol i'r disgyblion gwblhau'r dasg a dangos eu dealltwriaeth lawn oherwydd na chynhwyswyd cyfieithiadau yn y grid ateb. Felly y tro nesaf byddaf yn sicrhau cynnwys cyfieithiadau er mwyn rhoi mwy o sgaffald i'r disgyblion gwblhau'r dasg.

Cynlluniwyd fy nhasgau tanio cynnar wrth ddilyn theori Sbiral Brūner a thrafodwyd uchod (1996). Gwelir yn atodiad 7 enghraifft o dasg sydd wedi gofyn i'r disgyblion gofio'r patrymau o'r wers ddiwethaf er mwyn llenwi grid. Gweithiodd hyn yn dda o ran atgyfnerthu'r patrymau ac asesu'r hyn y mae disgyblion yn gallu cofio. Nid oedd y dasg yn llwyddiannus o ran ennyn diddordeb sydd wedi effeithio ar effaith y dasg ar y cyfan. Erbyn diwedd y wers, mi wnes i ofyn i'r disgyblion adrodd y patrymau eto ac yr oedd yn amlwg y rhan fwyaf wedi anghofio. Cefnoga Donaldson y syniad hwn wrth drafod pwysigrwydd ennyn diddordeb y disgyblion er mwyn sicrhau dysgu llwyddiannus. (2016, t.67)

Felly, yn atodiad 8, gwelir defnydd o gêm fel tasg danio. Gwelir cynnydd o atodiad 7 oherwydd y tro hwn mi wnes i ddefnyddio dull Brūner o adeiladu ar hen wybodaeth ond wedi rhoi ffocws ar ennyn diddordeb y disgyblion er mwyn gwneud y dysgu'n fwy effeithiol. Defnyddiais gêm er mwyn gwneud hyn oherwydd wrth chwarae gemau yn y gorffennol yr oedd yn amlwg mwynheuodd y disgyblion. Cefnoga Education World y syniad hwn wrth ddweud 'through lively games...students willingly use the vocabulary and structures, repeatedly gaining much-needed practice.' (2013). Gweithiodd hyn yn dda iawn oherwydd yr oedd y disgyblion yn awyddus i gymryd rhan a defnyddio'r ymadroddion ar lafar. Wrth ofyn i'r disgyblion ail adrodd y patrymau ar ddiwedd y wers, cofiodd y disgyblion y patrymau ond roeddent hefyd yn gallu cofio digwyddiadau'r gêm a helpodd hyn y disgyblion dwyn i gof y patrymau. Cefnogir hyn ymhellach gan Education World sy'n datgan bod 'While playing games, students develop a variety of connections with the content and can form positive memories of learning.' (2013)

Gwelir yn atodiad 9 enghraifft arall o dasg danio a gynlluniwyd er mwyn adeiladu ar wybodaeth flaenorol y disgyblion ac ennyn diddordeb. Gwelir cynnydd yn yr atodiad hwn oherwydd yn ogystal â chyrraedd at egwyddor 5 adroddiad Donaldson sef dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth flaenorol ac ennyn diddordeb, mae'r dasg hon hefyd yn cysylltu ag egwyddor 6 yr adroddiad sef creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu. (2016, t.67) Trafodwyd yn adroddiad Donaldson pwysigrwydd i'r disgyblion gweld sut y gallent yn cymhwyso'r sgiliau y maent yn dysgu yn y dosbarth yn y byd go iawn. (2016, t.67) Wrth gynllunio'r dasg hon penderfynais ddefnyddio'r templed Iphone a gofyn i'r disgyblion creu neges ar y ffôn gan ddefnyddio'r patrymau y maent wedi dysgu yn y gwersi diwethaf. Mi wnes i benderfynu ar y dasg hon oherwydd anfon neges at ffrind yn rhywbeth bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn gwneud pob

dydd. Mwynhaodd y disgyblion y dasg hon yn fawr iawn a llwyddodd y disgyblion i ysgrifennu neges gan gynnwys patrymau clir a chywir.

Wrth ystyried fy nghynnydd o ran cynllunio a gweithredu ar y tair egwyddor hyn, mae'n amlwg bod dal cyfle imi ddatblygu ymhellach. Wrth ganolbwyntio ar Asesu ar gyfer Dysgu, er mwyn datblygu hoffwn dreialu gwahanol ddulliau o gwestiynu, y tro nesaf byddaf yn defnyddio dull Lemov o *Cold Calling* a disgrifiwyd gan Allison a Tharby (2015) sy'n cynnwys yr athro yn dewis disgyblion ar hap i ateb y cwestiynau. Wrth ddefnyddio'r dull hwn, bydd yr effaith o ddewis y disgyblion ar hap fel y trafodwyd uchod dal yn digwydd, ond trwy osgoi defnyddio offeryn ar hap y gobaith yw bydd y wers y llifo'n fwy naturiol. Er mwyn datblygu yn ôl fy ngweithred o gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, mae'n amlwg bod rhaid imi ganolbwyntio ar gynnwys tasgau rhifedd yn fy ngwersi oherwydd bod y cynnwys o sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn hanfodol i ddatblygiad rhifedd y disgyblion. Dywedir gan Steen bod 'while maths can be taught in the context of maths lessons, the development of numeracy requires experience in the use of maths beyond the maths classroom' (2001. t.7) Wrth gynllunio, byddaf yn sicrhau bod y tasgau hyn yn hwyluso'r dysgu o fewn y pwnc. Er enghraifft, chwarae scrabble gyda geirfa pwnc lle bydd rhaid i'r disgyblion gwneud mathemateg wrth gyfri sgôr geiriau gwahanol ond bydd rhaid iddynt ganolbwyntio a dysgu'r eirfa hefyd. Wrth adfyfyrio ar fy nghweithred o'r drydedd egwyddor, rwy'n credu bod strategaeth yr ysgol o dasgau danio yn effeithiol, Mae dal angen imi sicrhau i ennyn diddordeb y disgyblion gan ddefnyddio adnoddau cyfoes a dilys.

Cyfeiriadau

Wednesday, October 30, 2019 3:51 PM

Anhysbys. (Dim dyddiad ar gael) *What is the Principled Communicative Approach.*

<https://outlook.office365.com/mail/inbox/id/AAQkADhmOTAyMDdiLTi2MTctNDA4Ni05NmE0LWI4YTZkYzIxZmJkOQQAQAB6ntq0rDy1OtBD8pC8cyb4%3D/sxs/AAMkADhmOTAyMDdiLTi2MTctNDA4Ni05NmE0LWI4YTZkYzIxZmJkOQBGAaaaaadw7Lq8Vy7ZTLXaAA7E3P6%2FBwB6sdmQpljSSajjpD7pW1LpAAAAAEMAAB6sdmQpljSSajjpD7pW1LpAABDvUwTAAABEgAQAAyzv9UpzhdLoWrtDlIc1N8%3D> (gwelwyd: 01/12/20)

Allison, S a Tharby, A. (2018) *Making Every Lesson Count*. Crown House Publishers: Caerfyrddin.

[Argraffiad e-lyfr] ar gael: https://www.amazon.co.uk/s?k=making+every+lesson+count&rh=n%3A341689031&ref=nb_sb_noss (gwelwyd 01/01/20)

Black, P *et al.* (2003) *Assessment For Learning: Putting it into Practice*. McGraw-Hill Education: UK.

CBAC (2011) *Manyleb Cymraeg Ail Iaith*. [Ar-lein] ar gael:

https://www.cbac.co.uk/qualifications/welsh-second-language/welsh-second-language-gcse/7942.pdf?language_id=2 (gwelwyd: 22/12/2019)

Clarke, S. (2005) *Formative Assessment in the Secondary Classroom*. Hodder Murray: London

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Llywodraeth Cymru: Cymru.

Dunn, K. E., & Mulvenon, S. W. (2009). A critical review of research on formative assessments: The limited scientific evidence of the impact of formative assessments in education. *Practical Assessment, Research and Evaluation*, 14(7), 1–11.

Education World. (2013) *Five Reasons to Use Games in the Classroom*. [Ar-lein] ar gael:

https://www.educationworld.com/a_curr/reasons-to-play-games-in-the-classroom.shtml (gwelwyd: 19/12/2019)

Gangwar, B a Savita. (2017) *Constructivist Approach in Teaching Learning*. [Ar-lein] ar gael:

<https://search.proquest.com/openview/4d98e194d423969af1cfb4d5331d6fda/1?pq-origsite=gscholar&cbl=2035015> (gwelwyd: 01/01/2020)

Hague, C a Payton, S. (2010) *Digital Literacy Across the Curriculum*. [Ar-lein] ar gael:

https://www.academia.edu/6177270/Digital_literacy_across_the_curriculum_a_Futurelab_handbook_KEY_TO_THEMES_OVERLEAF (gwelwyd: 20/12/2019)

Jacobs. (1989) *What is Interdisciplinary/Cross-Curricular Teaching?* [Ar-lein] ar gael:

<https://www.eduplace.com/rdg/res/literacy/interd0.html> (gwelwyd: 23/10/19)

Johnston, Howard. 2013. Research into Practice: The Spiral Curriculum. *Education Partnership Inc.* [Ar-lein] Ar gael: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED538282.pdf>(gwelwyd: 23/11/2019)

Jones, C. (2010) Interdisciplinary Approach – Advantages, Disadvantages and the Future Benefits of Interdisciplinary Studies. [Ar-lein] ar gael: <https://www.semanticscholar.org/paper/Interdisciplinary-Approach-Advantages%2C-and-the-of-Jones/f9fefb12d459b5da579e89988f76c330b5e8080b>(gwelwyd: 21/11/2019)

Llywodraeth Cymru. (2010) Why develop thinking and assessment for learning in the classroom?[Ar-lein] ar gael: <https://hwb.gov.wales/storage/2d2b99cd-5431-421e-ac8b-8608fe0edf05/why-develop-thinking-and-assessment-for-learning-in-the-classroom.pdf>(gwelwyd: 01/01/2020)

May, S a Wright, N. (2008) Secondary Literacy Across the Curriculum: Challenges and Possibilities. [Ar-lein] ar gael: <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.2167/le797.0> (gwelwyd: 17/12/2019)

Mcalpine, Mhairi. (2002) *Principles of Assessment*. Ar lein. CCA Centre, University of Luton: Luton.

Mcloed, S. (2019) Constructivism as a theory for teaching and learning. [Ar-lein] ar gael: <https://www.simplypsychology.org/constructivism.html>(gwelwyd:09/12/2019)

Robinson, K. (2015) *Creative Schools*. Allen Lane: United Kingdom

Rose, J. (2009) Independent Review of the Primary Curriculum: Final Report. [Ar-Lein] ar gael: https://dera.ioe.ac.uk/30098/2/2009-IRPC-final-report_Redacted.pdf(gwelwyd: 13/11/2019)

Sebba, J. *et al.* (2008) Systematic review of research evidence of the impact on students in secondary schools of self and peer assessment. [Ar-lein] ar gael: <https://ora.ox.ac.uk/objects/uuid:f5df1fd5-2bcb-47b1-8226-b38ba2431019> (gwelwyd 12/12/19)